# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 10 Gorffennaf 2012** |
| Amser: | **09:00 – 11:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_10_07_2012&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar (Cadeirydd)**<br>**Mohammad Asghar (Oscar) AC**<br>**Mike Hedges**<br>**Julie Morgan**<br>**Gwyn R Price**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Lindsay Whittle** |
| Tystion: | **Dame Gillian Morgan, Permanent Secretary, Welsh Government**<br>**James Price, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Director General BETS**<br>**Arwel Thomas, Head of Coroporate Governance**<br>**David Richards, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Tom Jackson (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)** |

## 1. Ystyried yr adroddiad drafft 'Rheoli Grantiau yng Nghymru'

1.1 Nododd y Pwyllgor ei fod wedi cytuno yn ei gyfarfod diwethaf, ar 3 Gorffennaf 2012, i ddechrau'r cyfarfod hwn yn breifat.

1.2 Trafododd y Pwyllgor y newidiadau i'w adroddiad drafft 'Rheoli Grantiau yng Nghymru' a chytunodd arnynt.

## 2. Trafod yr adroddiad drafft 'Cynnydd o ran cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru'

2.1 Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft 'Cynnydd o ran cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru' a chytunodd i'w ystyried ymhellach yn ei gyfarfod ar 17 Gorffennaf 2012.

## 3. Paratoi ar gyfer tystiolaeth Llywodraeth Cymru ar broses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen westy River Lodge, Llangollen

3.1 Trafododd y Pwyllgor y ffordd y mae'n bwriadu ymdrin â'r sesiwn dystiolaeth ddilynol (eitem 5) ar adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen'.

## 4. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

4.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau ac aelodau o'r cyhoedd i'r cyfarfod.

## 5. Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen westy River Lodge, Llangollen - Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

5.1 Croesawodd y Cadeirydd y Fonesig Gillian Morgan, Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru; James Price, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Busnes, Menter Technoleg a Gwyddoniaeth; Arwel Thomas, Dirprwy Gyfarwyddwr, Yr Is-adran Llywodraethu Corfforaethol a Sicrwydd; a David Richards, Cyfarwyddwr Llywodraethu.

5.2 Holodd y Pwyllgor y tystion.

**Pwyntiau gweithredu:**

Mewn ymateb i'r cwestiynau, cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu:

- Manylion ar p'un a fyddai uwch reolwyr Llywodraeth Cymru sy'n uwch na lefel ranbarthol wedi bod yn bresennol ar gyfer sesiynau briffio'r cyn Weinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau ynghylch cynigion i brynu gwesty River Lodge.
- Nodyn ynghylch a oes dyddiad cau wedi'i bennu i waredu hen westy River Lodge.
- Nodyn ynghylch y cynnydd ar gyfer gwerthuso ceisiadau ar ddefnyddio'r safle, gan gynnwys manylion am unrhyw amodau ar adeiladu llwybr troed ar y safle.
- Rhagor o fanylion am Dîm Arweinyddiaeth Eiddo Llywodraeth Cymru.
- Manylion am sut y gwnaeth swyddogion Llywodraeth Cymru yn y gogledd ymdrin â phryderon a godwyd gan Aelod Cynulliad lleol mewn llythyr i'r Gweinidog ynglŷn â chaffael gwesty River Lodge.

## 6. Papurau i'w nodi

## 7. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

**Trawsgrifiad**